Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**RHEOLIADAU INSPIRE (DIWYGIO) (YMADAEL Â'R UE) 2018**
DYDDIAD	**12 Tachwedd 2018**
GAN	**Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

Rheoliadau Inspire (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwys

- Rheoliad gan y Comisiwn (CE) Rhif 1205/2008 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch metadata
- Penderfyniad gan y Comisiwn 2009/442/CE sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch monitro ac adrodd
- Rheoliad gan y Comisiwn (CE) Rhif 976/2009 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y Gwasanaethau Rhwydwaith
- Rheoliad gan y Comisiwn (UE) Rhif 268/2010 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mynediad at setiau data a gwasanaethau gofodol yr Aelod-Wladwriaethau gan sefydliadau a chyrff y Gymuned o dan amodau wedi'u cysoni - **WEDI'I DDIRYMU**
- Rheoliad gan y Comisiwn (UE) 1089/2010 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch sut y gall setiau data a gwasanaethau gofodol ryngweithredu.

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau INSPIRE 2009 2009/3157 Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Caiff INSPIRE ei restru fel mater a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd nid oedd yn ofynnol cael cydsyniad. Er bod INSPIRE yn fater a gadwyd yn ôl mae'n ymwneud â data amgylcheddol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r dull sydd wedi'i ddefnyddio hyd yma yn cydnabod yr hyblygrwydd o ran y dull y mae sefydliadau a gweinyddiaethau yn ei ddefnyddio er mwyn cydymffurfio â safonau. Mae ceisio cydsyniad i'r OS yn cydnabod yr hyblygrwydd hwn a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud yn y maes hwn.

Diben y diwygiadau

Bydd Rheoliadau INSPIRE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn cael eu cyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ac mae'n OS sy'n dilyn y weithdrefn negyddol.

Diben Rheoliadau INSPIRE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yw gwneud yr addasiadau angenrheidiol er mwyn parhau i gymhwyso'r rheolau presennol ynghylch Seilweithiau Data Gofodol (SDG) a weithredir gan Awdurdodau Cyhoeddus a nodir mewn cyfraith ar ôl ymadael â'r UE. Bydd y diwygiadau'n sicrhau bod y rheoliadau Inspire yn parhau i gael eu gweithredu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
Mae'r OSau a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda nhw, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments